**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

YN BRESENNOL

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr: | |
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd): G Owens (Dirprwy Glerc); H MacArthur ac S Morris (Prif Swyddogion Cynorthwyol); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); J Brown (Rheolwr Cyllid); A Hughes ac S Williams (Swyddfa Archwilio Cymru); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr: | |
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Swyddogion: | |
| S Forrest | Pennaeth Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 MEHEFIN 2018

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2018 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 CYFLWYNIAD AR IECHYD A LLESIANT

4.1 Rhoddodd y Rheolwr Adnoddau Dynol gyflwyniad i'r aelodau am y cymorth a'r gefnogaeth a roddir i'r staff o ran iechyd a llesiant. Roedd yr aelodau'n falch o nodi bod Hyrwyddwyr Golau Glas ar gael yn y Gwasanaeth, ac mae'r rheini wedi cael hyfforddiant i wneud y gwaith o gynorthwyo unigolion sydd angen cymorth iechyd meddwl ac o ddangos y ffordd at gymorth iddynt.

4.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

5 Y DATGANIAD O GYFRIFON

5.1 Fe wnaeth PSC MacArthur gyflwyno datganiad o gyfrifon archwiliedig 2017/18, gan gynnwys y datganiad llywodraethu, ac roedd y ddau ddatganiad wedi bod yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno canfyddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2 Nodwyd mai gwaith y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar yr adroddiadau cyllid, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub ar sail ei ganfyddiadau. I gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010, mae'n un o'r gofynion fod yr Aelodau'n cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig erbyn 30 Medi.

5.3 Roedd y datganiad llywodraethu a'r cyfrifon drafft wedi cael eu cyflwyno i'w harchwilio ar 1 Mehefin 2018. Roedd y rhain yn cadarnhau sefyllfa alldro drafft y gwariant net, sef £33.329m, gan arwain at gyfraniad o £93,083 o'r cronfeydd wrth gefn. Nid yw'r sefyllfa archwiliedig derfynol wedi newid.

5.4 Nodwyd bod nifer o addasiadau wedi cael eu gwneud, yn unol ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, er nad oedd yr addasiadau hyn yn cael unrhyw effaith gyffredinol ar sefyllfa alldro'r Awdurdod. Fodd bynnag, ystyriwyd dwy eitem i'w haddasu ond roedd y rheolwyr wedi penderfynu peidio â'u haddasu gan nad oeddent yn bwysig, a chadarnhaodd y swyddogion y bydd y materion yn cael pob sylw yn 2018/19; dyma'r materion:

- codio grant yn anghywir;
- ar ddiwedd y flwyddyn, roedd anfoneb cyfalaf gwerth £134,000 wedi dod i law. Nid oedd cyfrif am hyn yn 2017/18 gan nad oedd yr holl waith wedi cael ei gwblhau.

5.5 Nodwyd bod mater yn ymwneud â phensiynau ATAau Cymru gyfan wedi cael ei ganfod wrth gynnal yr archwiliad; roedd datgeliad naratif ychwanegol wedi cael ei gynnwys yn y datganiad o gyfrifon yn esbonio'r mater ac roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau nad yw'r mater yn bwysig i'r farn am 2017/18 er bod rhagor o waith yn mynd ymlaen i sicrhau bod y mater yn cael ei ddatrys ar gyfer y blynyddoedd ariannol nesaf.

5.6 Er yr uchod, da oedd nodi bod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnig cyhoeddi adroddiad archwilio diamod. Roedd y Datganiad o Gyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu wedi cael eu paratoi yn unol â'r amserlen ac nid oedd unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r sefyllfa alldro a adroddwyd yn flaenorol. Nodwyd hefyd fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi amlinellu camau angenrheidiol i sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu gwneud newidiadau i'r amserlen ar gyfer 2018/19; cadarnhaodd y PST MacArthur y bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda'r archwilydd i sicrhau bod yr argymhellion yn cael sylw.

5.7 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r datganiad o gyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2017/18;**

**(ii) nodi'r adroddiad a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru;**

**(iii) nodi ymatebion rheolwyr i faterion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol; a**

**(iv) argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd a datganiad llywodraethu 2017/18.**

6 ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

6.1 Fe wnaeth Amanda Hughes o Swyddfa Archwilio Cymru gyflwyno'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r aelodau.

6.2 Rhoddodd Ms Hughes fanylion y gwaith sy'n gysylltiedig ag archwilio'r datganiadau a dywedodd bod sgwrs barhaus wedi digwydd gyda'r swyddogion cyllid yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a GTAGC i ddelio â'r materion a ganfuwyd. Fodd bynnag, gyda golwg ar y dyfodol, roedd Ms Hughes yn hyderus y bydd yr Awdurdod yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed ac y bydd yn parhau i weithio'n dda gyda'r archwilwyr. Dywedodd y PST MacArthur eto fod cynlluniau'n bodoli i sicrhau eglurder ac effeithlonrwydd yn y broses o baratoi'r datganiad o gyfrifon ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cadarnhaodd Ms Hughes y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi adroddiad archwilio diamod.

6.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r archwiliad o'r datganiadau ariannol, a'r argymhellion sydd ynddynt;**

**(ii) nodi y bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi adroddiad archwilio diamod;**

**(iii) argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo'r llythyr sylwadau i'w anfon i Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

7 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

7.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Un o ofynion Cod Darbodus CIPFA yw bod y dangosyddion darbodus yn cael eu monitro'n rheolaidd a bod unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu cymeradwyo. Hefyd, mae angen rhoi gwybod am newidiadau i fenthyciadau tymor hir a'r partïon i gontract fel rhan o god CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.

7.2 Ers i'r Awdurdod Tân ac Achub gymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19 ar 19 Mawrth 2018, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2018/19 ac ymlaen wedi newid oherwydd y ffaith fod gwariant gwirioneddol ar y rhaglen gyfalaf yn 2017/18 wedi bod yn llai na'r alldro a amcangyfrifwyd; yn gryno, mae'r gwariant cyfalaf yn 2018/19 wedi cynyddu'n fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol oherwydd nad oedd cynlluniau na chwblhawyd yn llwyr yn 2017/18 wedi cael ei cario drosodd i 2018/19.

7.3 Cadarnhawyd bod darpariaeth o £100k wedi'i neilltuo o hyd rhag ofn i gynnydd ddigwydd yn y llog yn ystod y flwyddyn.

7.4 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub eu bod yn cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig fel y nodir yn yr adroddiad.**